



100
1922 - 2022

Pwy Sy'n Dŵad Dros y Bryn

**Pwy sy'n dŵad dros y bryn,
yn ddistaw, ddistaw bach?
Ei farf yn llaes, a'i wallt yn wyn,
â rhywbeth yn ei sach.
A phwy sy'n eistedd ar y to, ar bwys y simdde
fawr?
Siôn Corn! Siôn Corn! Helo, helo.
Tyrd yma, tyrd i lawr**

**Mae saith rhyfeddod yn dy sach,
gad i mi weled un?
A rho ryw drysor bychan bach yn enw Mab y Dyn.
Mae'r gwynt yn oer ar frig y to,
mae yma ddisgwyl mawr.
Siôn Corn! Siôn Corn! Helo, helo.
Tyrd yma, tyrd i lawr**